Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Faenol
# Penrhosgarnedd
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 2NN

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Faenol

Lleolir Ysgol y Faenol ym Mhenrhosgarnedd yn ninas Bangor. Mae'n ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un â chymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethol, yn ôl y gyfraith, drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 212 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 20 oed meithrin rhan-amser. Mae 8 dosbarth un oedran yn yr ysgol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol (18%). Mae tua 10% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae tua 22% o'r disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig. Ychydig iawn sy'n derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 14% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae'r disgyblion a'r oedolion yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn dda ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn ystod eu cyfnod yno, mae rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog, sy'n darparu ar gyfer anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen yn hynod o lwyddiannus ac yn sicrhau bod disgyblion yn arddangos lefel arbennig o annibyniaeth. Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol ac, o ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Rhannu nodweddion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol

A2 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

A3 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wella eu medrau rhifedd ac agweddau o'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen sy'n magu annibyniaeth ymysg disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac yn cyflawni'n dda.

Er bod y Gymraeg yn iaith newydd i ran fwyaf y disgyblion ar fynediad i'r ysgol, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ac yn fuan yn y dosbarth meithrin. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae hyn i'w weld yn glir wrth i ddisgyblion y dosbarth derbyn greu rysáit ar gyfer bwyd i'r dinosor ac wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 drafod chwedl 'Cyfrinach y Brenin March'. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon ac yn siarad yn gywir yn y Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Fodd bynnag, mae cyfyngder geirfa a chystrawen chwithig yn amharu ar hyder ychydig o'r disgyblion i gyfathrebu'n hyderus wrth drafod eu gwaith. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n hyderus yn Saesneg. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus gydag aeddfedrwydd, gan ddefnyddio geirfa ymestynnol a chyfoethog, er enghraifft wrth drafod teimladau mam wrth iddi ffarwelio â'i phlentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da bob blwyddyn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir ac yn dechrau adnabod geiriau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon gyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, mae'r disgyblion hyn yn cywain gwybodaeth o wahanol fynnonellau wrth gymharu dau leoliad yn Sri Lanka ac yn dadansoddi erthygl papur newydd i ymchwilio i effaith y 'Blitz' ar drigolion Caerdydd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Maent yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn erbyn diwedd y cyfnod. Maent yn ysgrifennu'n annibynnol, yn deall gwahanol arddulliau ysgrifennu'n dda ac yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu am eu hymweliad â chastell Biwmares. Wrth symud ymlaen trwy gyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith gan baragraffu ac atalnodi'n gynyddol gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn fedrus, er enghraifft wrth greu ymsonau a dyddiaduron yn seiliedig ar fywyd faciwîs neu wrth ysgrifennu am eu hymweliad â Chaerdydd. Maent yn defnyddio eu medrau ailddrafftio'n gelfydd i wella eu gwaith.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn cymhwyso eu medrau'n fedrus, er enghraifft wrth baratoi bwyd ar gyfer y tair arth. Erbyn Blwyddyn 2, mae ganddynt afael cadarn ar ffeithiau rhif, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod

eang o ddulliau i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo pris brecwast Cymreig. Er hyn, nid ydynt bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd ar yr un lefel uchel mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm ag y maent mewn gwersi mathemateg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 ddefnyddio rhaglen animeiddio syml i gofnodi taith y brenin March i'r parti. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi maint traed aelodau'r dosbarth, er enghraifft. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, er enghraifft wrth greu taflen wybodaeth i ddenu ymwelwyr i Nant Gwrtheyrn. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data i'w galluogi i ddilyn trywyddau ymholi penodol ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymagweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn barod iawn i drafod eu gwaith a'u llwyddiannau gydag oedolion. Maent yn dangos cymhelliant yn eu gwaith, yn cydweithio'n gytûn ac yn ymroi i'w tasgau yn ddiwyd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn chwarae rhan allweddol wrth drefnu'r amrywiaeth o weithgareddau yn yr ardaloedd dysgu. Mae hyn yn eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i ddysgu. Maent bob amser yn barod i ddysgu, ac yn arddangos lefel arbennig o annibyniaeth. Mae bron bob un yn canolbwyntio'n dda, ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau newydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Maent yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio ac i fynegi barn am yr hyn maent yn ei ddysgu. O ganlyniad, mae llawer yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus ac uchelgeisiol. O oed cynnar, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn dangos aeddfedrwydd wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac i adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn ofalgar o'i gilydd yn ystod amseroedd egwyl a chinio, gyda disgyblion hŷn yn barod iawn i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau fel 'ffrindiau ffeind' gan helpu i gadw gofal ar y rhai iau a'u hannog nhw i chwarae adeg egwyl. Mae hyn yn hybu gofal a chyfrifoldeb ymhlith y disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch o'r cyfleoedd a gânt i ddatblygu eu medrau arwain. Trwy amrywiol bwyllgorau a grwpiau sydd yn cynrychioli disgyblion, maent yn cyfrannu'n briodol at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn weithredol trwy gefnogi amrywiaeth o elusennau, gan gynnwys cymdeithas y deillion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf ohonynt o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau’r ysgol. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yno a gwyddant at bwy i droi am gyngor petai rhywbeth yn eu poeni. Maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae’r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n ddiogel pan fyddant yn defnyddio’r rhyngrwyd. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd cadw’n heini gan ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn egnïol a rheolaidd. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu’r ysgol yn rheolaidd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae’r athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, a phrofiadau a heriau cyffrous, i’w disgyblion, sy’n cymell eu diddordeb a’u brwdfrydedd i ddysgu. Maent yn cynllunio’n effeithiol i ddatblygu cwricwlwm sy’n seiliedig ar Gymru a’r etifeddiaeth Gymreig. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o’u hardal leol, eu hanes a’u diwylliant. Trwy gynnwys llais eu disgyblion yn y cynllunio, mae rhan fwyaf yr athrawon yn adeiladu’n llwyddiannus ar brofiadau dysgu blaenorol yn effeithiol.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu’n arbennig o dda yn yr ysgol. Trwy gydweithio effeithiol ac arweiniad clir, mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd i’r holl ddisgyblion brofi amrediad o brofiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog. Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i’w gwaith yn effeithiol iawn. Defnyddir amrediad o weithgareddau dychmygus a heriol sy’n magu annibyniaeth ymysg disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn hyderus i fentro ac i feddwl drostynt eu hunain. Er mwyn datblygu medrau’r disgyblion ymhellach, mae staff yn gwneud defnydd hyblyg o adnoddau’r ysgol ac yn cynnwys syniadau’r disgyblion yn effeithiol iawn wrth drefnu’r ardaloedd dysgu, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan.. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn cynllunio’n fwriadus i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae’r cynllunio yn drefnus ac yn helpu athrawon i greu tasgau diddorol sy’n adeiladu’n dda ar ddysgu blaenorol y disgyblion, er enghraifft mewn gwersi iaith a mathemateg. Mae’r athrawon yn cynllunio’n cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso’r medrau hyn yn hyderus. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd i lefel uchel ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh i gywain a chyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd i ddatblygu eu medrau trin data a modelu wedi datblygu’n ddigon effeithiol er mwyn i iddynt gymhwyso’r medrau hyn yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm. Mae’r ysgol wedi ystyried y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn ofalus, gan ddechrau mynd i’r afael â bylchau yn ei darpariaeth bresennol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthynas waith lwyddiannus gyda’r disgyblion sy’n meithrin awyrgylch dysgu gweithgar. Mae’r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra maent yn gweithio, a

rhyngweithio gyda'u cymheiriaid. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent gan amlaf yn arwain sesiynau dysgu effeithiol. Maent yn modelu iaith safonol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safon iaith lafar disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu llwyddiannus sy'n sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn ymgymryd yn llwyr â'u dysgu. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau, gan amlaf, rhediad da i'r sesiynau. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn. Maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog y disgyblion i feddwl yn annibynnol. Mae cyflwyniadau dychmygus a chyflymder y gwersi yn nodwedd gref o'r addysgu. Yn yr ychydig enghreifftiau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac nid ydynt bob amser yn herio'r disgyblion yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn gweithio hyd eithaf eu gall bob amser.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a'r meini prawf llwyddiant. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch ac ymroddiad yn effeithiol. Mae diwylliant gwrthfwlio cryf yn yr ysgol ac mae'r athrawon yn arfogi'r disgyblion i feithrin y medrau angenrheidiol i oresgyn problemau yn llwyddiannus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad cadarnhaol rhan fwyaf y disgyblion a'u hymagwedd gadarnhaol tuag at ei gilydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn fedrus i sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion a grwpiau penodol sydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn defnyddio amrywiaeth dda o ddulliau i ddarparu ymyraethau pwrpasol ar eu cyfer. Enghraifft dda o hyn yw'r ymyrraeth lwyddiannus i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion penodol. Mae cynlluniau addysg unigol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol gan athrawon a chymorthyddion i sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae'r staff yn monitro cynnydd disgyblion yn gydwybodol. Caiff rhieni wybodaeth dda am gynnydd eu plant a chânt eu cynnwys yn llawn wrth adolygu eu cynnydd.

Mae'r ysgol yn darparu ymyraethau sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i fynegi eu teimladau ac yn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o fywyd yr ysgol. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion a'u rhieni.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae dulliau cyfathrebu priodol yn sicrhau bod rhieni yn gallu codi unrhyw faterion sydd yn eu pryderu am addysg a lles eu plant. Mae rhieni yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd a thargedau datblygiad eu plant.

Mae'r ysgol yn rhoi cryn bwyslais ar lais y disgyblion. Gwelir hyn ar ei orau drwy'r cyfleoedd sydd iddynt ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu ar lawr y dosbarth, yn eu hardaloedd dysgu ac wrth osod eu targedau personol. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth i'r disgyblion dros eu dysgu ac yn meithrin ymagwedd gadarnhaol tuag ato. Trwy gyfrwng amrywiaeth o gynghorau ysgol, mae cyfleoedd i lawer o'r disgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau gwerthfawr. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad y disgyblion at fabwysiadu egwyddorion Siarter Iaith Gwynedd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'r ardal leol a Chymreictod yn effeithiol, er enghraifft wrth astudio hanes Stad y Faenol a thrwy drefnu ymweliad â Chaerdydd. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae athrawon yn meithrin medrau diwylliannol disgyblion yn effeithiol trwy ddysgu am weledydd amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw prosiect cyfnod allweddol 2 ynglŷn â chynnyrch masnach deg ym Malawi, Ghana, India a Sri Lanka.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da i'r disgyblion ddatblygu creadigrwydd a medrau corfforol. Enghreifftiau hynod o effeithiol o effaith hyn yw brwdfrydedd arbennig disgyblion y blynyddoedd cynnar wrth greu dawns gyda Caleb y mwnci ac adeiladu nyth clyd i'r ŵy dinosor yn yr ardal allanol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau celfyddydol mynegiannol disgyblion, er enghraifft wrth astudio gwaith artistiaid lleol a pherfformio mewn cyngherddau a gwasanaethau. Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder a'u gallu i gydweithio yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau corfforol, gwersi ar fwyta'n iach, camddefnyddio sylweddau, rhyw a pherthnasoedd a diogelwch ar y rhyngrwyd. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth sy'n seiliedig ar sicrhau cymuned gynhwysol ac sy'n canolbwyntio ar gynnig profiadau dysgu cyfoethog fel bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'r staff yn ymroddgar ac yn cydweithio'n agos fel tîm, gan ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac effeithiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy.

Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli wedi sefydlu ystod o weithgareddau hunanwerthuso pwrpasol sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r broses yn seiliedig ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol ynglŷn â chyflawniad disgyblion sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar

waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ganfod ac ymateb i farn disgyblion a rhieni wrth adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r adroddiad hunanwerthuso yn nodi cryfderau'r ysgol yn glir ac yn sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd sydd angen sylw pellach. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r broses hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn gyson. Mae hyn yn sicrhau bod yr arweinwyr a'r staff yn gweithredu'n effeithiol er mwyn gwella safonau ac ansawdd y dysgu a'r addysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r cysondeb ar draws yr ysgol wrth weithredu strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol ac mae'r aelodau'n cynnwys trawstoriad da iawn o arbenigeddau sy'n gaffaeliad pendant i arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Trwy gydweithio â staff yr ysgol, arsylwi ar wersi a thrafod enghreifftiau o waith gyda'r disgyblion, maent yn chwarae rôl weithredol ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. Mae hyn, ynghyd â derbyn adroddiadau pwrpasol y pennaeth, yn arwain at ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ddarpariaeth a'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n gynyddol ac yn eu galluogi i herio'r ysgol am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae'r pennaeth yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i staff elwa o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n berthnasol i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas waith gynhyrchiol gydag ysgolion eraill tebyg sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu agweddau o'r ddarpariaeth fel asesu ar gyfer dysgu, y defnydd o heriau dysgu yn y cyfnod sylfaen a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau i'r addysgu a'r dysgu, er enghraifft wrth wella medrau llythrennedd a rhifedd a datblygu gwydnwch disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gynnig ystod o brofiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'r disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol er mwyn bodloni blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau yn fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gyfoethogi'r ddarpariaeth drwy nifer dda o raglenni ymyrraeth sy'n cyfrannu at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac i hyrwyddo'u lles.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2019